Proffil
# Sgiliau Digidol
Graddedigion

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Pa sgiliau digidol ydych chi'n eu defnyddio yn eich swydd?**

Llythrennedd data a gwybodaeth – "Dwi wedi gwneud llawer o fewnbynnu data a gweithio gydag Excel a hefyd teipio nodiadau ysgrifenedig ar daenlenni. Hefyd ysgrifennu adroddiadau gyda rhywfaint o ddadansoddi ystadegau ond mae hyn wedi'i wneud yn bennaf gydag Excel hefyd".

Dysgu digidol – "Gan fy mod i'n gweithio yn yr RSPB dwi wedi gorfod defnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a doeddwn i ddim wedi defnyddio'r rheiny tan oeddwn i yn yr RSPB gan nad oedden nhw'n rhan o fy nghwrs i".

**Oes unrhyw wendidau cyffredin mewn sgiliau digidol y byddwch chi'n sylwi arnyn nhw ymysg eich cydweithwyr?**

"Oes, ystadegau. Roedd hi fel petai nad oedd e'n clicio i rai pobl a bod dim mwy o gefnogaeth ar gael – roedd hi fel petai angen ichi ailadrodd y drefn. Roedd yr adnoddau i gyd yna ichi ddysgu, sy'n beth da".

**Oes unrhyw sgiliau digidol yr hoffech fod wedi'u dysgu cyn ichi raddio?**

"Byddai wedi bod yn ddefnyddiol dysgu GIS a hefyd efallai rhai sgiliau creu mapiau ar lefel ragarweiniol ac efallai cael cyrsiau ar lefelau gwahanol felly ar gyfer dechreuwyr, canolradd ac uwch er enghraifft. Byddai diddordeb gen i hefyd mewn defnyddio meddalwedd dadansoddi delweddau achos byddai hynny wedi bod yn dda ar gyfer fy nhraethawd hir ond hefyd gwaith felly er enghraifft fe allwn i uwchlwytho delwedd o gwmwl o ddrudwy a byddai'n awtomatig yn cyfrif faint o adar sydd yna".

**Pryd wnaethoch chi raddio o Brifysgol Aberystwyth?**

"2022"

**Beth fuoch chi'n ei astudio?**

"Swoleg"

**Beth ydych chi'n ei wneud yn broffesiynol ers graddio?**

"Yn y 6 mis diwethaf rwyf wedi cael swydd wirfoddol mewn gwarchodfa RSPB yn yr Alban ond dwi newydd gael swydd am dâl am 3 mis yn arolygu adar môr ar Ynysoedd Sili gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol".



# Jay Cowen